# Y BWRDD GWEITHREDOL
# 5ED HYDREF 2020

## GARDD FOTANEG GENEDLAETHOL CYMRU

**Ystyried cymorth ariannol yr Awdurdod ar gyfer yr Ardd yn y dyfodol**

## YR ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

1. Ymestyn benthyciad di-log yr Awdurdod i'r Ardd am 18 mis arall, o 1 Ebrill 2020 hyd at 30 Medi 2021.
2. Caniatáu i'r Ardd barhau i feddiannu tri o'r pedwar ffermdy ar sail tenantiaeth am 18 mis arall hyd at 30 Medi 2021.

## Y RHESYMAU:

I ymestyn y trefniant benthyciad / prydles presennol, a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 am 18 mis arall ar yr un amodau â chytundebau presennol tra bod opsiynau tymor hwy yn cael eu harchwilio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cynllun ad-dalu cadarn.

**Angen ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu perthnasol** NAC OES

**Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad** OES
**Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad** NAC OES

**Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n Gyfrifol am y Portffolio** - Y Cynghorydd David Jenkins
Adnoddau

| | | |
|---|---|---|
| **Y Gyfarwyddiaeth:** Adnoddau<br><br>**Enw'r Cyfarwyddwr:** Chris Moore<br><br>**Awdur yr Adroddiad:** Chris Moore / Tracey Williams | **Swydd:**<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol / Cyfrifydd Cynorthwyol | **Rhifau ffôn: 01267 224120**<br><br>**Cyfeiriadau e-bost:**<br><br>**CMoore@sirgar.gov.uk** |

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council